



Road Safety Wales

Diogelwch Ffyrdd Cymru

Low Down

Diogelwch Ffyrdd Cymru yn croesawu Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth newydd

Cyflwyno Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth newydd Cymru, Mark Hooper.

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn croesawu penodiad Mark Hooper AS yn Ddirprwy Weinidog Trafnidiaeth newydd Cymru.

Ar ôl gwasanaethu o'r blaen fel Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, mae Mark Hooper yn dod â phrofiad ym maes polisi trafnidiaeth a dealltwriaeth gref o'r heriau sy'n wynebu cymunedau ledled Cymru. Daw ei benodiad ar adeg bwysig wrth i Gymru barhau i wella'i rhwydwaith trafnidiaeth wrth weithio tuag at deithio mwy diogel a chynaliadwy.

Mae'r Dirprwy Weinidog wedi amlinellu blaenoriaethau sy'n cynnwys gwella trafnidiaeth gyhoeddus, gwneud teithio llesol yn opsiwn mwy deniadol ar gyfer siwrneiau bob dydd, buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth, a sicrhau bod y rhwydwaith yn ategu twf economaidd ac yn cyfrannu at nodau amgylcheddol Cymru yr un pryd. Disgwylir i ddiogelwch ar y ffyrdd barhau'n ystyriaeth allweddol wrth i'r blaenoriaethau yma gael eu cyflawni, gyda gwaith yn parhau i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru.

Mae Mark Hooper wedi tanlinellu mor bwysig yw gwytnwch y seilwaith, mynd i'r afael â chau Pont y Borth dro ar ôl tro oherwydd torri'r terfyn pwysau a chydlynu gydag awdurdodau i orfodi mesurau diogelwch. Yn y De, mae'n gweithio ar gynllun strategol ar gyfer coridor yr M4, gan anelu at wella dibynadwyedd ac effeithlonrwydd trafnidiaeth yn y tymor hir. Mae ei ymagwedd yn pwysleisio ymyriadau ymarferol, tymor byr i ganolig, a all wneud gwahaniaeth ystyrlon i gymudwyr a chymunedau.

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Dirprwy Weinidog a Llywodraeth Cymru i gefnogi mentrau sy'n hybu ffyrdd mwy diogel, ymddygiad cyfrifol ymysg defnyddwyr ffyrdd a system drafnidiaeth sydd o fudd i bawb ledled Cymru.

YN Y RHIFYN YMA:


Y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth
Cynllun Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd
Defnyddio eCall
BikeSafe i Staff Heddlu
Gwrthdrawiadau ac Anafusion: 2025
Ymgych Apex
Atafaelu e-feiciau anghyfreithlon



Cynllun Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru

Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Heddiw rwy'n falch o lansio [Cynllun Partneriaeth diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru](#). Mae'r cynllun hwn yn nodi strwythur llywodraethu cadarn, nodau a blaenoriaethau clir ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig â'r ffyrdd, a phrif darged i leihau'n sylweddol nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd erbyn 2040.



Dylai Llywodraeth Cymru ynghyd â'i phartneriaid ddilyn cynllun cyflawni manwl, sy'n amlinellu camau gweithredu pendant a dangosyddion perfformiad diogelwch i lywio hynt ein gwaith. Mae diogelwch ar y ffyrdd yn flaenoriaeth drawsbynciol ac yn agwedd allweddol ar ein strategaeth drafnidiaeth.

Mae'n hanfodol ar gyfer creu system drafnidiaeth effeithlon, effeithiol, deg a chynhwysol, un sy'n galluogi pawb yng Nghymru i gael mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau ac addysg, yn cefnogi cymunedau ffyniannus, ac yn ysgogi twf economaidd. Mae ein dull o fynd i'r afael â diogelwch ar y ffyrdd yn seiliedig ar yr egwyddor na ddylai ein bywyd a'n hiechyd gael eu peryglu gan ein hangen i deithio.

I gyflawni hyn, byddwn yn defnyddio'r dull System Ddiogel i leihau'r risg ac yn gweithio tuag at Weledigaeth Sero, lle nad oes unrhyw farwolaethau nac unrhyw anafiadau difrifol ar ein ffyrdd.

Rwy'n ymrwymedig i alinio ac integreiddio diogelwch ar y ffyrdd â pholisi trafndiaeth ehangach, ac i weithio ar y cyd ar draws iechyd ac iechyd y cyhoedd, iechyd a diogelwch galwedigaethol, yr amgylchedd a datgarboneiddio, addysg a chyfiawnder cymdeithasol. Trwy sicrhau bod y manteision mwyaf posibl yn deillio o waith partneriaeth, gallwn gyflawni ffyrdd mwy diogel i bawb yng Nghymru.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod yr Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi'n ddiweddar Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd.

Mae'r aliniad rhwng y strategaeth hon yn y DU a'n Cynllun Partneriaeth ein hunain -y ddau yn seiliedig ar y dull System Ddiogel ac ymrwymiad i Weledigaeth Sero -yn creu sylfaen gadarn ar gyfer cydweithio. Gyda'n gilydd, rydym yn gwahodd yr holl bartneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau i ymuno â ni yn y genhadaeth hanfodol hon.

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n annog modurwyr ddeall sut a phryd mae eu cerbyd nhw'n ffonio 999

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn annog modurwyr ymgyfarwyddo hefo system galwadau brys eu cerbyd ar ôl gweld cynnydd mewn galwadau 999 wedi'u sbarduno'n anfwriadol.

Mae'r dechnoleg, a elwir yn eCall, wedi'i osod ar bob car newydd ers 2018 ac mae wedi'i gynllunio i gysylltu hefo'r gwasanaethau brys yn awtomatig os bydd gwrthdrawiad difrifol. Fodd bynnag, mae Cyfathrebwyr yn derbyn galwadau fwyfwy gan yrwyr sydd wedi pwyso'r botwm SOS mewn camgymeriad, gan gredu ei fod yn eu cysylltu nhw hefo gwasanaethau torri i lawr neu gasglu.

Beth ydy eCall?

Mae eCall yn system achub bywyd sy'n ffonio 999 yn awtomatig os ydy cerbyd yn rhan o ddamwain sylweddol. Gellir ei fywiogi hefo llaw hefyd trwy wasgu botwm SOS coch, sydd fel arfer wedi'i leoli ger y consol to neu'r drych cefn. Pan gaiff ei sbarduno, mae'r system yn anfon gwybodaeth hanfodol yn uniongyrchol at wasanaethau brys, gan gynnwys union leoliad GPS y cerbyd, cyfeiriad teithio a manylion adnabod, tra ar yr un pryd yn agor sianel lais fel y gall trinwyr galwadau siarad hefo deiliaid.

Os nad oes ymateb gan y cerbyd, efallai y bydd gwasanaethau brys yn dal i gael eu defnyddio yn seiliedig ar y data a dderbyniwyd.

Pryd i ddefnyddio botwm SOS eich cerbyd

Atgoffir modurwyr y dylai'r botwm SOS ond ei ddefnyddio mewn argyfyngau gwirioneddol yn unig, gan gynnwys:

- Gwrthdrawiadau traffig ffordd
- Argyfyngau meddygol sy'n gofyn am gymorth brys
- Sefyllfaoedd lle mae risg uniongyrchol i fywyd neu ddiogelwch

Nid ydy'r system wedi'i chynllunio ar gyfer cymorth torri i lawr neu gymorth cyffredinol.

Cynnydd mewn galwadau 999 damweiniol

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gweld cynnydd mewn galwadau lle mae modurwyr naill ai wedi pwyso'r botwm SOS yn ddamweiniol neu wedi ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn argyfwng fel cerbydau'n torri i lawr.


Mae'r galwadau hyn yn cael eu trin fel argyfyngau posibl hyd nes y cadarnhawyd fel arall, sy'n golygu bod yn rhaid i swyddogion a staff yr ystafell reoli eu blaenoriaethu, a all ddargyfeirio adnoddau rhag digwyddiadau dilys.



Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnal sesiynau BeicioDiogel mewnol yn ddiweddar ar gyfer staff sy'n feicwyr modur brwd

Menter genedlaethol yw BeicioDiogel sy'n cael ei harwain gan yr heddlu ac wedi anelu at roi cyfle i bob beiciwr modur wella eu gwybodaeth, gwella eu technegau reidio, a lleihau eu perygl ar y ffordd. Wedi'i gyflwyno gan feicwyr modur uwch yr heddlu, mae'r gweithdy'n cyfuno mewnbnw dosbarth gyda thaith sy'n cael ei harsylwi, gan gynnig adborth personol ymarferol mewn amodau byd go iawn.

Mae beicwyr modur yn parhau i fod yn un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed ar ein ffyrdd, ac mae mentrau fel BeicioDiogel yn chwarae rôl hanfodol o ran helpu reidwyr i ddeall canfyddiad o berygl, lleoli, cornelu a gwneud penderfyniadau yn well.



Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi arddangos ei ymrwymiad tuag at ddiogelwch reidwyr yn fewnol, gan gynnal sesiynau BeicioDiogel mewnol yn Llandrindod a Chaerfyrddin yn ddiweddar ar gyfer staff sy'n feicwyr modur brwd.

Rhoddodd y sesiwn yr un arweiniad a hyfforddiant o safon uchel sydd ar gael i'r cyhoedd i staff, gan atgyfnerthu pwysigrwydd dysgu parhaus ac arferion reidio diogel wrth eu gwaith neu'r tu allan.

Dywedodd y Rhingyll James Helyer: "Mae BeicioDiogel yn ymwneud â rhoi'r arfau a'r hyder i reidwyr fwynhau eu teithiau gan aros yn ddiogel. P'un a ydych chi newydd ymgymhwyso neu â blynyddoedd o brofiad, mae rhywbeth i'w ddysgu o hyd. Roedd hi'n wych gweld ein staff ein hun yn ymgysylltu â'r sesiynau mewnol, a byddem yn annog pob beiciwr modur yng Nghymru i ystyried cofrestru."

Cymerodd y Prif Arolygydd Dominic Jones ran yn sesiwn BeicioDiogel Caerfyrddin. Meddai, "Rwyf wedi bod yn reidio ERS ychydig dros ddwy flynedd, ac rwyf eisoes wedi bod ar y Cynllun Reidiwr Uwch. Fe'm llethwyd gan drefniadaeth wych digwyddiad BeicioDiogel Dyfed-Powys ac roedd y gefnogaeth a'r wybodaeth a roddwyd gan yr hyfforddwyr yn arbennig.

"Ar ôl mynychu, rwy'n teimlo'n fwy hyderus ac rwy'n reidiwr mwy diogel. Rwy'n annog pawb sydd â beic modur i wneud cymaint o hyfforddiant a dysgu ychwanegol â phosibl, a gallaf dystio'n bersonol i fanteision y cwrs hwn."

Cynhelir gweithdai BeicioDiogel mewn lleoliadau amrywiol, ac maen nhw ar agor i bob reidiwr â thrwydded beic modur lawn a'u beic modur eu hun sy'n ddiogel i fod ar y ffordd. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth neu archebu lle, galwch heibio i wefan BeicioDiogel: www.bikesafe.co.uk Gyda'n gilydd, gallwn wneud ein ffyrdd yn fwy diogel i bawb.

Gwrthdrawiadau ffordd ac anafusion a gofnodwyd gan yr heddlu: 2025

Mae'r holl ddata sylfaenol yn cael ei gyhoeddi ar StatsCymru, ac ar ein dangosfwrdd gwrthdrawiadau ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys manylion ychwanegol am: wrthdrawiadau ac anafusion yn ôl ardal, terfyn cyflymder, difrifoldeb, math o gerbyd.

Prif bwyntiau

- Bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwrthdrawiadau ffyrdd a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru dros y tri deg mlynedd diwethaf.
- Yn ystod 2025, cofnododd yr heddlu 3,004 o wrthdrawiadau ffyrdd yng Nghymru, gyda 4,078 o anafusion o ganlyniad i hynny.
- Mae anafusion wedi cynyddu 2% o'u cymharu â 2024 ac maent 8% yn is na 2022 (y flwyddyn galendr olaf cyn cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya).
- O'r 4,078 o bobl a anafwyd, lladdwyd 91, cafodd 1,116 o bobl anafiadau difrifol a chafodd 2,871 o bobl fân anafiadau.
- Cofnododd heddluoedd yng Nghymru gyfanswm o 3,004 o wrthdrawiadau ar y ffyrdd, cynnydd o 3% o'i gymharu â 2024, a 9% yn llai nag yn 2022. Dros yr un cyfnod, cynyddodd traffig ffordd yng Nghymru o 2%, i'r lefel uchaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru.
- O'r 3,004 o wrthdrawiadau, roedd 83 yn angheuol, 979 yn ddifrifol a 1,942 yn fân wrthdrawiadau.

Ymgyrch Apex i wella diogelwch reidwyr beic modur dros y Gwanwyn a Haf hwn

Ymgyrch Apex sy'n canolbwyntio ar wella diogelwch reidwyr beic modur a gostwng gwrthdrawiadau difrifol ar ffyrdd allweddol. Bydd yr ymgyrch yn golygu y bydd presenoldeb yr heddlu'n cynyddu ar ffyrdd sy'n boblogaidd gyda reidwyr, yn enwedig y rhai hynny sy'n adnabyddus oherwydd cyfraddau gwrthdrawiad uwch.

Bydd swyddogion yn cynnal cyfuniad o weithgarwch gorfodi ac ymgysylltu, gan dargedu'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at wrthdrawiadau difrifol ac angheuol.



Mae beicwyr modur ymhlith defnyddwyr mwyaf agored i niwed y ffyrdd, ac yn ystod cyfnodau'r gwanwyn a'r haf gwelir cynnydd yn y niferoedd o reidwyr sy'n teithio ar draws ffiniau'r heddlu i fwynhau ffyrdd gwledig ac arfordirol.

Fel rhan o Ymgyrch Apex, bydd swyddogion yn canolbwyntio ar:

- Cyflymder eithafol neu amhriodol
- Goddiweddyd peryglus
- Colli rheolaeth ar droadau
- Ymddygiad reidio gwrthgymdeithasol neu risg uchel

Yn ogystal â gorfodi, bydd swyddogion yn ymgysylltu gyda reidwyr er mwyn darparu cyngor ynghylch reidio diogelach ac yn hyrwyddo datblygu sgiliau pellach drwy'r cynllun BikeSafe cenedlaethol.

Mae reidwyr hefyd yn cael eu hannog i gynnal gwiriadau sylfaenol cyn-reidio cyn iddynt gychwyn ar eu taith, gan gynnwys gwirio teiars, brecioau, goleuadau a lefelau hylif, er mwyn sicrhau bod eu beic modur yn addas i'r ffordd fawr.

Dywedodd yr Arolygydd Dawn Fencott-Price, o Ymgyrchoedd Arbenigol Heddlu Dyfed Powys: "Bwriad Ymgyrch Apex yw gostwng y niferoedd o

reidwyr sy'n cael eu hanafu'n ddifrifol neu eu lladd ar ein ffyrdd. Rydyn ni'n gwybod y bydd nifer o reidwyr beic modur yn teithio i'n hardal i fwynhau'r ffyrdd sydd gennym i'w cynnig, ac rydyn ni eisiau i bawb gyrraedd yn ddiogel a dychwelyd adref yn ddiogel.

“Nid atal pobl rhag mwynhau eu reidiau yw amcan yr ymgyrch hwn. Ei fwriad yw annog ymddygiadau reidio diogelach, sicrhau bod beiciau modur mewn cyflwr da, a gweithredu pan fyddwn yn gweld gweithgarwch peryglus sy’n peryglu bywydau.

Gofynnir i heddluoedd partner gefnogi’r ymgyrch drwy rannu negeseuon diogelwch allweddol gyda reidwyr a fydd efallai’n teithio i’r ardal. Atgoffir reidwyr beic modur i:

- Reidio o fewn eu gallu ac addasu eu cyflymder yn ôl cyflwr y ffordd ac amodau’r tywydd
- Cymryd gofal pellach ar ffyrdd anghyfarwydd
- Bod yn ymwybodol o ddefnyddwyr eraill y ffyrdd na fydd efallai wedi eu gweld nhw
- Cynnal gwiriadau cynnal a chadw sylfaenol cyn teithio.

Mae Heddlu hefyd yn annog reidwyr i ystyried cofrestru ar gyfer gweithdy [BikeSafe](#), sy’n cynnig cyngor ymarferol a thaith dan oruchwyliaeth reidiwr beic modur lefel uwch yr heddlu er mwyn helpu gwella sgiliau ac ymwybyddiaeth o’r ffordd.

Rhagor o e-feiciau anghyfreithlon yn cael eu cymryd oddi ar y ffyrdd diolch i ymgyrch ar y cyd arall â Chyngor Caerdydd

Mae 21 o e-feiciau ac e-sgwteri anghyfreithlon wedi cael eu cymryd oddi ar y ffyrdd diolch i ymgyrch ar y cyd â Chyngor Caerdydd. Mae hyn yn golygu bod mwy na 633 o gerbydau anghyfreithlon wedi cael eu hatafael a'u hailgylchu ers mis Awst.

Gweithiodd swyddogion a staff y cyngor â'i gilydd i barhau i fynd i'r afael â phryderon y gymuned am gerbydau wedi'u gyrru'n fecanyddol (MPVs), y cyfeirir atynt hefyd fel e-feiciau ac e-sgwteri anghyfreithlon.

Bu'r tîm yn canolbwyntio ar City Road, Heol Albany, Llanrhymni, Trowbridge, Llanedern a Phentwyn.

Dywedodd yr Arolygydd Tim Ursell o Heddlu De Cymru: “Mae defnyddio e-feiciau ac e-sgwteri yn anghyfreithlon ac yn peri risg ddifrifol i gerddwyr a defnyddwyr y ffordd.



“Mae'r effaith y mae reidwyr e-feiciau gwrthgymdeithasol yn ei chael ar gymunedau yn cael ei chodi fel pryder yn aml.

“Rydym yn annog y cyhoedd i ddeall y gyfraith a gwneud dewisiadau diogel a chyfreithlon.”

[Cyngor ar ddefnyddio e-sgwter | Heddlu De Cymru](#)

